Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ysbyty Maindiff Court – Ward Tŷ Skirrid

## Dyddiad y gweithgarwch: 25 Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 23 Rhagfyr 2020





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80082-669-4

(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Tŷ Skirrid yn Ysbyty Maindiff Court fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Ward adsefydlu â 12 gwely i ddynion 18-65 oed yw Tŷ Skirrid, a chaiff ei rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ac uwch-nyrs y gwasanaeth fforensig ar 25 Medi 2020, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom enghreifftiau o ystod eang o ffurflenni asesu risg iechyd a diogelwch a gynhyrchwyd gan y gwasanaeth, a oedd yn rhestru'r mesurau a oedd ar waith i helpu i gadw'r amgylchedd yn ddiogel i'r cleifion a'r staff.

Dywedwyd wrthym fod addasiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd ac o ran symudiadau cleifion a staff drwy'r ward er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Dim ond staff a chlinigwyr sy'n ymweld sy'n defnyddio'r brif fynedfa erbyn hyn, ac mae ardal wedi'i neilltuo yno i'w galluogi i wisgo a diosg Cyfarpar Diogelu Personol wrth fynd i mewn i'r ward ac wrth adael. Mae cleifion bellach yn cyrraedd ac yn gadael Tŷ Skirrid drwy ddrysau allanol ymhellach i lawr y ward.

Gwelsom weithdrefn gweithredu safonol a luniwyd gan y bwrdd iechyd er mwyn helpu lleoliadau gofal iechyd i gadw at y canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol. Mae arwyddion wedi'u gosod o amgylch y ward ac mae'r staff yn atgoffa'r cleifion yn ystod eu cyfarfodydd boreol am bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, oherwydd cynllun y ward a'r diffyg lle, dywedwyd wrthym fod sicrhau pellter cymdeithasol wedi bod yn anodd ar adegau. Mae addasiadau wedi'u gwneud lle y bo'n bosibl; prynwyd byrddau a chadeiriau ychwanegol ar gyfer yr ardal fwyta er mwyn sicrhau y gall y cleifion eistedd ar wahân a chadw pellter cymdeithasol, ac mae terfynau wedi'u cyflwyno ar nifer yr aelodau o'r staff a ganiateir yn y swyddfa ar unrhyw adeg.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau i'r trefniadau ymweld yn ystod pandemig COVID-19 pan osodwyd cyfyngiadau cenedlaethol ar ymwelwyr â lleoliadau gofal iechyd. Mae'r cleifion wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau gan ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain, ond gall cleifion ddefnyddio ffonau'r ward os oes angen. Yn ystod y cyfnodau pan gafodd y cyfyngiadau symud eu llacio, neilltuwyd yr ardal fawr y tu allan i'r ward i ymwelwyr yn bennaf. Rhoddwyd mesurau rheoli priodol ar waith i sicrhau y gellid cynnal ymweliadau'n ddiogel; roedd yn ofynnol i ymwelwyr gwblhau holiadur sgrinio COVID-19, gwisgo masgiau a diheintio dwylo, a darparu manylion at ddibenion olrhain cysylltiadau. Cafodd cadeiriau hefyd eu glanhau rhwng ymweliadau.

Dywedwyd wrthym mai'r addasiadau mwyaf y bu'n rhaid i'r cleifion eu goresgyn yn ystod pandemig COVID-19 fu'r cyfyngiadau a osodwyd ar ganiatâd o adael o dan Adran 17 [1]yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud. Mae'r cleifion fel arfer yn mynd allan i'r gymuned yn ystod y dydd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis pêl-droed a physgota, neu fynd i'r gampfa. Cafodd gweithgareddau cymunedol eu hatal yn ystod y cyfyngiadau symud a cheisiwyd cynnal rhaglenni adsefydlu ar y ward drwy ddarparu cyfarpar campfa, yn ogystal â threfnu gweithgareddau megis cwisiau er mwyn helpu i godi morâl y cleifion. Mae'r ddarpariaeth therapi galwedigaethol ar ward Tŷ Skirrid wedi cynyddu o un diwrnod yr wythnos i bum diwrnod yr wythnos, ac mae hyn wedi helpu yn hyn o beth, a gwelsom fod hyn wedi bod yn newid cadarnhaol ers arolygiad blaenorol AGIC o'r gwasanaeth.

Mae'r staff yn monitro'r cleifion yn ystod eu cyfarfodydd boreol a thrwy eu rhyngweithio arferol er mwyn cadw golwg am unrhyw newidiadau yn eu personoliaeth neu eu gweithredoedd. Cawsom gopi o'r bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni...' a arddangoswyd ar y ward, a oedd yn dangos sut roedd y gwasanaeth yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw newidiadau posibl i'r cyfyngiadau ar adael. Dywedwyd wrthym fod y cyfyngiadau wedi effeithio ar gymhelliant a phryder cleifion ond nad oedd wedi arwain at gynnydd mewn ymddygiadau heriol na'r angen i ddefnyddio dulliau atal yn gorfforol. Gwelsom dystiolaeth o ddata digwyddiadau diweddar a oedd yn cadarnhau hyn.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod protocolau penodol ar gyfer COVID-19 wedi'u rhoi ar waith er mwyn rhoi canllawiau ar amrywiaeth o drefniadau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys protocolau hylendid dwylo diwygiedig, canllawiau ar gyfarpar diogelu personol priodol i'w wisgo wrth ddefnyddio dulliau atal yn gorfforol, a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau cleifion yn ddiogel i leoliadau gofal iechyd eraill neu'r gymuned. Mae cyfarfodydd wythnosol wedi’u cynnal â holl reolwyr wardiau Ysbyty Maindiff Court yn ystod pandemig COVID-19, er mwyn trafod unrhyw newidiadau i brotocolau neu fynd i'r afael â materion neu bryderon; adroddir yn ôl i staff Tŷ Skirrid yn dilyn y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf.

[1] Mae Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i gleifion a gedwir adael yr ysbyty am reswm a chyfnod penodol er mwyn helpu'r cleifion i adfer a chael eu rhyddhau i'r gymuned unwaith eto.

Gwnaethom drafod y llwybr a oedd ar waith ar ward Tŷ Skirrid i reoli unrhyw achosion posibl neu achosion a gadarnhawyd o COVID-19. Byddai pob achos yn cael ei drosglwyddo i Ward gyfagos Lindisfarne, sy'n cynnwys tri gwely, sydd wedi'i chau i gleifion newydd yn ystod y pandemig, a byddent yn cael eu nyrsio gan staff Tŷ Skirrid. Ceisiwyd cyngor gan y tîm atal a rheoli heintiau canolog yn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod Lindisfarne yn fan diogel priodol i ynysu cleifion i ffwrdd o'r brif ward. Cawsom wybod bod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff fel y gallant ddarparu gwasanaeth nyrsio ataliol ar ward Lindisfarne yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Yn galonogol, dim ond un achos positif o'r coronafeirws sydd wedi'i gofnodi ymhlith y cleifion.

Dywedwyd wrthym ei bod yn orfodol i bob aelod o'r staff gydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfarpar diogelu personol wrth nyrsio cleifion ar ward Tŷ Skirrid. Caiff gwiriadau wythnosol o stoc cyfarpar diogelu personol eu cynnal gan y staff er mwyn sicrhau nad oes prinder ar y ward. Gwelsom fod archwiliadau atal a rheoli heintiau wythnosol yn cael eu cynnal ar y ward a bod archwiliadau blaenorol yn dangos bod cyfarpar diogelu personol ar gael, a bod y staff yn ei ddefnyddio'n gywir ac yn gwybod sut i'w wisgo a'i ddiosg yn ddiogel. Yn galonogol, gwelsom hefyd fod archwiliadau blaenorol yn dangos bod y troli dadebru ar y ward yn cael ei archwilio'n wythnosol er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol sy'n darparu'r lefel orau o ddiogelwch wrth gywasgu'r frest neu roi triniaeth dadebru cardio-anadlol i gleifion ag achos a gadarnhawyd neu achos a amheuir o COVID-19, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru y DU.

Ymhlith y dystiolaeth ategol a ddarparwyd i ni cyn y gwiriad ansawdd roedd polisi atal a rheoli heintiau diwygiedig, a luniwyd gan y bwrdd iechyd, ac ystadegau a oedd yn dangos cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ymhlith aelodau o staff Tŷ Skirrid. Cawsom hefyd ddogfen a luniwyd gan y bwrdd iechyd a oedd yn amlinellu ei gynllun Cam 1 (Mawrth 2020 – Mai 2020) i ymateb i COVID-19; Mae AGIC yn deall bod y bwrdd iechyd wrthi'n datblygu ei gynllun Cam 2 a byddai'n disgwyl i gynnydd o ran y cynllun gael ei rannu â staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd yng ngoleuni'r ansicrwydd sy'n bodoli o hyd ynghylch COVID-19.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod amlder tasgau glanhau wedi cynyddu er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 drwy'r ward. Caiff canllawiau ac arwynebau eraill a gyffyrddir yn aml eu glanhau'n rheolaidd drwy gydol y dydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym mai dim ond unwaith y dydd y mae staff glanhau domestig yn ymweld â'r ward, a hynny yn y bore, o gymharu â dwywaith y dydd yn flaenorol. Mae hyn wedi golygu bod staff nyrsio wedi gorfod cyflawni tasgau glanhau rheolaidd drwy gydol pandemig COVID-19, yn enwedig yn ystod y nos. Mae AGIC yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r penderfyniad hwn er mwyn ystyried yr effaith ar staff nyrsio a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â dilyn trefniadau atal a rheol heintiau caeth yn ystod pandemig COVID-19.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod y trefniadau a oedd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cymysgedd cywir o sgiliau a niferoedd staff ar y ward yn ystod pob sifft. Mae nifer o staff nyrsio newydd gymhwyso wedi'u recriwtio i weithio ar ward Tŷ Skirrid dros y 12 mis diwethaf, sydd wedi helpu i sicrhau bod y gofynion staffio wedi'u bodloni er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19, megis staff yn gorfod hunanynysu neu warchod. Mae AGIC yn gwerthfawrogi'r anawsterau y mae'r aelodau newydd gymhwyso hyn o'r staff wedi'u goresgyn er mwyn parhau i ddarparu gofal i gleifion, gan addasu i'r newidiadau i'r ffordd arferol o weithio yn sgil COVID-19 ar yr un pryd.

Caiff HealthRoster ei ddefnyddio fel adnodd cyffredinol i reoli rotas, dewisiadau gweithio staff a rheoli absenoldebau. Cawsom dystiolaeth o Ganllawiau ar Weithio Ar Alwad i Uwch-nyrsys a Pholisi Uwchgyfeirio ar gyfer Staff Nyrsio, a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd, a oedd yn amlinellu'r prosesau i'w dilyn er mwyn uwchgyfeirio unrhyw bryderon o ganlyniad i brinder staff neu gynnydd mewn galw clinigol.

Gwnaethom adolygu'r cymorth a oedd ar gael i staff yn eu rolau. Dywedwyd wrthym fod cyfleoedd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol i'r staff wrthi'n cael eu hystyried, a byddai AGIC yn annog hyn er mwyn helpu i ddatblygu'r staff newydd gymhwyso. Mae asesiadau risg COVID-19 wedi'u cwblhau er mwyn helpu i ddiogelu iechyd a llesiant aelodau o'r staff a all wynebu mwy o risg o ddal yr haint a/neu ganlyniad andwyol pe baent yn ei ddal.

Cawsom wybod bod y staff yn cael amser i gwblhau eu gofynion hyfforddiant yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod lefel y gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a statudol yn uchel, ar y cyfan, ymhlith y staff a oedd yn gweithio ar y ward; gwelsom fod cynlluniau ar waith i wella cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar godi a chario.

Cawsom wybod bod anghenion y cleifion yn parhau i gael eu diwallu drwy eu cynnwys nhw, yn ogystal â'u teuluoedd, yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau gofal a thriniaeth. Bu'n rhaid cynnal hyn yn rhithwir drwy gydol COVID-19 ond sicrhawyd bod y clinigwyr a'r aelodau perthnasol o dimau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnwys. Mae hawliau cleifion i'w hachosion gael eu hadolygu gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a chael

gafael ar weithwyr iechyd proffesiynol ehangach, megis eiriolaeth, wedi parhau o bell.

Dywedwyd wrthym y bu achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o ward Tŷ Skirrid i leoliadau allanol. Oherwydd y pwysau a wynebwyd gan wasanaethau yn ystod pandemig COVID-19, nid yw hyn wedi'i nodi'n faes ffurfiol i'w wella; fodd bynnag, cynghorir y bwrdd iechyd y dylai fod yn effro i'r mater hwn a sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar lesiant ac adferiad cleifion sy'n barod i adael y ward.

**Nodwyd y gwelliannau canlynol:**

Gwnaethom ofyn am gael gweld data ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) blynyddol y staff. Gwelsom fod angen i'r mwyafrif o'r staff gael PADRau, ond dywedwyd wrthym hefyd efallai nad oedd y data'n gywir. Cawsom gopi o gynllun gweithredu a fyddai'n cael ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu PADRau yn ystod y misoedd i ddod. Rhaid i'r gwasanaeth wella ei gofnodion mewn perthynas â monitro cydymffurfiaeth â PADRau y staff, a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis i ddangos bod pob PADR hwyr wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun gweithredu.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Maindiff Court

Ward: Tŷ Skirrid

Dyddiad y gweithgarwch:25 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i’r bwrdd iechyd adolygu’r penderfyniad i ddarparu staff glanhau domestig i’r ward unwaith y dydd yn unig er mwyn ystyried yr effaith ar staff nyrsio a’r risgiau sy’n gysylltiedig â pheidio â dilyn trefniadau atal a rheoli heintiau caeth yn ystod pandemig COVID-19. | Safonau Iechyd a Gofal Cymru<br>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Cynhelir adolygiad o’r ddarpariaeth glanhau domestig er mwyn pennu priodoldeb y ddarpariaeth bresennol. | Rheolwr Cyfleusterau a’r Uwch-Nyrs | Diwedd mis Ionawr 2021 |
| 2 | Rhaid i’r gwasanaeth wella ei gofnodion mewn perthynas â monitro cydymffurfiaeth â PADRau y staff, a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis i ddangos bod pob PADR hwyr wedi’i gwblhau yn unol â’r cynllun gweithredu. | Safonau Iechyd a Gofal Cymru<br>Safon 7.1 Y Gweithlu | Gwirio cywirdeb pob PADR ar y gronfa ddata a’i diweddaru lle bo angen, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Caiff cynllun ei ddatblygu i amserlennu pob PADR. | Rheolwr y Ward | 10 Rhagfyr 2020<br><br>Misol |

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Caiff y broses o fonitro PADRau ei harchwilio yn ystod sesiynau goruchwylio misol y rheolwyr. | Uwch-nyrs/Rheolwr y Ward | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Michelle Forkings, Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio/Nyrs Ranbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 14 Rhagfyr 2020